

Ymchwiliad i gŵyn
gan Mrs A
yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Adroddiad gan
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Achos: 201403532

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad	3
Crynodeb	4
Y gŵyn	6
Yr ymchwiliad	6
Awdurdodaeth yr Ombwdsmon	6
Deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau perthnasol	7
Gwybodaeth gefndir a digwyddiadau perthnasol	7
Tystiolaeth Mrs A	13
Tystiolaeth yr Awdurdod Addysg Lleol	15
Dadansoddiad a chasgliadau	19
Argymhellion	24
Atodiadau	
Atodiad 1	26
Atodiad 2	27

Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn o dan adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, mae'r adroddiad yn ddienw er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, bod unrhyw fanylion a allai olygu bod modd adnabod unigolion wedi cael eu newid neu eu hepgor. Mae'r adroddiad felly'n cyfeirio at yr achwynydd fel Mrs A a'i mab fel B.

Crynodeb

Cwynodd Mrs A am nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (“y Cyngor”), yn ei rôl fel yr awdurdod addysg lleol (“AALI”) wedi ystyried yn briodol, wedi asesu na chanfod anghenion addysgol arbennig (“AAA”) ei mab, B. Dywedodd Mrs A nad oedd yr AALI wedi ystyried a fyddai asesiad statudol wedi bod yn fwy priodol ar gyfer AAA B. Roedd Mrs A o’r farn nad oedd y Cytundeb Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy Estynedig (“ESAP”) a gyhoeddwyd gan yr AALI ar gyfer B wedi cael ei fonitro ac nad oedd yr AALI wedi sicrhau bod ei ysgol yn darparu’r cymorth a bennwyd o dan y Cytundeb hwnnw. Cwynodd Mrs A nad oedd y Cyngor wedi delio’n briodol â’i chwyn am yr AALI.

Canfu’r ymchwiliad nad oedd cyfeiriad at Gytundebau ESAP, ac nad ydynt yn cael eu cydnabod, naill ai fel rhan o ddull graddoledig neu fel opsiwn heblaw asesiad statudol mewn unrhyw wybodaeth gan yr AALI, yn ei weithdrefnau nac yn ei bolisiâu cyhoeddedig ar gyfer darpariaeth AAA. Daeth yr Ombwdsmon i’r casgliad nad oedd Cytundeb ESAP, yn hytrach nag asesiad statudol yn ddull dilys o ddiwallu AAA B. Roedd polisi’r AALI yn eglur pan oedd ymyriadau B yn yr ysgol yn annigonol i ddiwallu ei ofynion AAA, y dylid bod wedi ystyried asesiad statudol ar ei gyfer. Roedd yr Ombwdsmon yn bryderus ynghylch defnydd yr AALI o Gytundebau ESAP fel opsiwn yn lle asesiad statudol.

Roedd yr AALI wedi dadlau bod Cytundeb ESAP B yn gyfystyr â Datganiad AAA ond canfu’r ymchwiliad nad oedd hyn yn wir. Hefyd, roedd y Cytundeb ESAP a gyhoeddwyd gan yr AALI yn weithredol am bythefnos yn unig yn ystod cyfnod pan oedd B yn treulio cryn dipyn yn llai o oriau yn yr ysgol. O ganlyniad nid oedd y ddarpariaeth ESAP yn cael ei chyflawni gan yr AALI.

Cadarnhaodd yr Ombwdsmon gwyn Mrs A a daeth i’r casgliad bod yr AALI wedi methu ag asesu a chanfod AAA B a’i fod wedi methu â darparu cymorth priodol i B i ddiwallu ei anghenion a oedd wedi’u canfod. Cadarnhaodd yr Ombwdsmon gwyn Mrs A am y ffordd yr oedd y Cyngor wedi delio â’i chwyn, er bod y Cyngor wedi hynny wedi cyflwyno newidiadau i’w drefn rheoli cwynion i osgoi sefyllfa o’r fath rhag digwydd eto.

Gwnaeth yr Ombwdsmon argymhelliad fod y Cyngor yn ymddiheuro i Mrs A ac yn talu iawndal o £350 iddi am yr amser a'r drafferth yr aeth iddo i gwyno. Argymhellwyd hefyd fod y Cyngor yn penodi ac yn cyfarwyddo arbenigwr addysgol annibynnol i adolygu darpariaeth addysgol i B; bod y Cyngor yn adolygu ei Bolisi AAA cyhoeddedig; a bod y Cyngor yn archwilio'r Trefniadau ESAP sydd ar waith ganddo ar hyn o bryd i ystyried a ddylid cynnal asesiadau statudol yn unol â'i Bolisi AAA.

Y gŵyn

1. Cwynodd Mrs A am nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (“y Cyngor”), yn ei rôl fel yr awdurdod addysg lleol (“AALI”) wedi ystyried yn briodol, wedi asesu na chanfod anghenion addysgol arbennig (“AAA”) ei mab, y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel B. O ganlyniad cynnododd Mrs A hefyd nad oedd yr AALI wedi darparu cymorth priodol i ddiwallu ei anghenion addysgol tra’r oedd yn ddisgybl yn Ysgol D o fis Medi 2012 tan iddo gael ei symud oddi yno ar 24 Mawrth 2014. Cwynodd Mrs A nad oedd yr AALI wedi ystyried a fyddai anghenion addysgol B yn cael eu diwallu’n well gan asesiad statudol, a Datganiad AAA ffurfiol. Dywedodd Mrs A fod yr AALI wedi cyhoeddi Cytundeb Gweithredu gan yr Ysgol Estynedig a Mwy (“ESAP”) i B ond nad oedd wedi monitro na gwneud yn siŵr bod Ysgol D yn darparu’r cymorth a nodwyd yn y Cytundeb hwnnw. Dyma oedd sylwedd cwyn Mrs A yn erbyn yr AALI. Cwynodd Mrs A hefyd nad oedd y Cyngor wedi delio â’i chŵyn yn erbyn yr AALI yn briodol.

Ymchwiliad

2. Cefais sylwadau a chopïau o ddogfennau perthnasol gan Mrs A, y Cyngor a’r AALI gan gynnwys y dogfennau hynny a oedd yn cael eu cadw gan Ysgol D sy’n gysylltiedig â materion sy’n dod o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Rwyf hefyd wedi ystyried y ddeddfwriaeth a’r canllawiau perthnasol. Nid wyf wedi cynnwys pob manylyn yr ymchwiliwyd iddo yn yr adroddiad hwn ond rwyf yn fodlon na chafodd unrhyw beth arwyddocaol ei esgeuluso.

3. Yn Atodiad 1 ceir rhestr o’r byrfoddau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn.

4. Cafodd Mrs A a’r AALI ill dau gyfle i weld ac i wneud sylwadau ar fersiwn ddrafft o’r adroddiad hwn cyn cyhoeddi’r fersiwn terfynol.

Awdurdodaeth yr Ombwdsmon

5. Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (“Deddf OGCC”) yn amlinellu pwerau ac awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Ei rôl yw ymchwilio i gamweinyddu a methiant gwasanaeth honedig sydd wedi arwain yn uniongyrchol at anghyfiawnder neu galedi i unigolyn. Ni all

gwestiynu rhinweddau penderfyniadau a wnaethpwyd yn briodol heb gamweinyddu. Mae awdurdodaeth yr Ombwdsmon hefyd yn amodol ar gyfyngiadau ac eithriadau penodol. Nid yw'n gallu ymchwilio i faterion yn ymwneud â dysgu, y cwricwlwm, disgyblaeth a rheoli mewn ysgolion. Yn benodol, nid yw ysgolion a'u cyrff llywodraethu yn gyrff sy'n dod o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Nid wyf felly wedi ystyried gweithredoedd / penderfyniadau Ysgol D a / neu ei Chorff Llywodraethu, ac mae fy ymchwiliad wedi'i gyfyngu i rôl yr AALI yn y gŵyn hon.

6. Mae gan yr Ombwdsmon rôl gyfyngedig i graffu ar gŵyn a wneir i'r AALI perthnasol yng Nghymru ynglŷn ag ysgol a / neu ei chorff llywodraethu. Rhaid i bolisi cwyno ysgol enwi'r AALI perthnasol fel y cam olaf yn ei phroses gwyno ffurfiol er mwyn iddo ystyried a yw'r ysgol wedi dilyn y polisi a'r weithdrefn ar gyfer delio â chwynion. Gall yr Ombwdsmon ystyried cwynion am yr AALI mewn sefyllfaoedd o'r fath, ond mae yn yr un modd wedi'i gyfyngu i ystyried sut y mae'r AALI wedi delio â'r broses gwyno. Nid oes gan yr Ombwdsmon awdurdodaeth dros union sylwedd y gŵyn am ysgol / corff llywodraethu.

7. Gall yr Ombwdsmon ystyried cwynion yn erbyn paneli apelio annibynnol yn erbyn gwaharddiad sydd wedi'i gyfansoddi o dan adran 52 o Ddeddf Addysg 1996 ar gyfer gwaharddiadau parhaol.

8. Felly, mae cylch gorchwyl fy ymchwiliad i gŵyn Mrs A wedi'i gyfyngu i weithredoedd a chyfrifoldebau'r AALI ar gyfer darparu AAA B, a'r ffordd yr oedd yr AALI wedi delio â chŵyn Mrs A.

Deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau perthnasol

9. Rwyf wedi ystyried y ddeddfwriaeth, y rheoliadau a'r canllawiau perthnasol, ynghyd â Pholisïau perthnasol y Cyngor ac sydd wedi'u hamlinellu gennyf yn Atodiad 2.

Gwybodaeth gefndir a digwyddiadau perthnasol

10. O gofio'r cyfyngiadau ar awdurdodaeth yr Ombwdsmon, rwyf wedi cyfyngu'r manylion cefndir i'r rhai hynny sy'n berthnasol i gysylltiad yr AALI â'r achos. Mae'r digwyddiadau sy'n destun y gŵyn hon wedi'u cysylltu mor agos

â darpariaeth AAA Ysgol D fel fy mod wedi cynnwys rhai manylion am ymyriadau B yn yr ysgol.

11. Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad wedi bod yn gysylltiedig ag addysg B a'i AAA er **2009**, pan oedd yn bedair oed.

12. Os na ellir darparu'n ddigonol ar gyfer anghenion addysgol ychwanegol plentyn drwy ymyriadau yn yr ysgol cyflwynodd yr AALI, yn 2009, gytundebau ESAP fel opsiwn yn lle'r broses asesiadau statudol.

13. O **2011**, roedd B yn cael cymorth ychwanegol ar gyfer ei AAA a oedd yn cael ei ddarparu gan Weithredu gan yr Ysgol ("SA"). Cafodd y cymorth i B ei gynyddu yn **2012** ac roedd ei AAA yn cael ei ddarparu drwy Gymorth Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ("SAP"). Mae SA a SAP ill dau'n ymyriadau yn yr ysgol lle mae'r cymorth ychwanegol y penderfynir sydd ei angen yn cael ei ddarparu a'i adolygu gan yr ysgol gyda chymorth y Cydlynedd Anghenion Addysgol Arbennig ("SENCO"). Cafodd B hefyd gynlluniau ymddygiad a chynllun addysg unigol ("IEP") i roi sylw i'w anghenion penodol. Roedd y cymorth yr oedd B yn ei gael yn yr ysgol a'i IEPau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

14. Ym mis Mawrth, nodwyd fod Seicolegydd Addysg "o'r farn nad oedd ystyriaethau diagnostig [B] yn flaenoriaeth ar hyn o bryd ac y gellid rhoi sylw iddynt mewn adolygiad yn y dyfodol".

15. Dechreuodd B fynychu Ysgol D yn 2012, ond mae'r digwyddiadau y mae'r gŵyn yn cyfeirio atynt yn ymwneud â'r cyfnod o fis Medi 2013 yn bennaf, pan oedd B yn wyth oed ac yn mynychu'r dosbarth blwyddyn tri.

16. Ar 9 Hydref **2013** bu'r Seicolegydd Addysg yn arsylwi ar B yn ei gartref gan fod ei ymddygiad wedi newid ers iddo symud ymlaen i'r dosbarth blwyddyn tri. Yn ei hadroddiad dyddiedig 14 Hydref argymhellodd fod Ysgol D yn gwneud cais am gymorth ESAP ar gyfer B, a bod cynllun plentyn ganolog yn cael ei ysgrifennu ar ei gyfer a bod B yn mynychu sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar "i helpu i leihau ei bryder ac i gynyddu ei fecanweithiau ymdopi".

17. Ar 15 Hydref cafodd B waharddiad cyfnod penodol o Ysgol B am ddau ddiwrnod (16 a 17 Hydref). Yn y cyfarfod ailintegreiddio (cyfarfod dychwelyd i'r ysgol yn dilyn gwaharddiad i benderfynu sut i ailintegreiddio'r disgybl yn ôl i'r ysgol) a gynhaliwyd ar 17 Hydref, gofynnodd Ysgol D am Gytundeb ESAP ar gyfer B, a chytunwyd y dylai B cael ei gyfeirio at y Bwrdd Iechyd ar gyfer Therapi Iaith a Lleferydd ("SALT") ac at y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS") i gael ei asesu. Cyfeiriodd yr AALI gais Ysgol D am ESAP i gael ei ystyried gan ei Banel Cymedroli.
18. Ar 23 Hydref bu Panel Cymedroli'r AALI yn ystyried y cais am ESAP ar gyfer B ynghyd â'r wybodaeth ychwanegol a roddwyd gan Ysgol D a chan yr arbenigwyr allanol a oedd yn gysylltiedig â darpariaeth AAA B o dan SAP.
19. Ar 24 Hydref cafodd B waharddiad cyfnod penodol am hanner diwrnod.
20. Yn Adolygiad B a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, cadarnhaodd Rheolwr Tîm Gweithwyr Cymdeithasol Addysg ("ESWTM") yr AALI fod B wedi cael ei gyfeirio i gael asesiad SALT ac y dylai Mrs A gysylltu â Meddyg Teulu B ar gyfer yr atgyfeiriad CAMHS. Trefnwyd cyfarfod adolygu pellach ar gyfer 4 Rhagfyr.
21. Yn y nodiadau a gyflwynwyd gan yr ESWTM cofnodwyd ei fod wedi cael trafodaeth dros y ffôn â phennaeth Ysgol D ar 11 Tachwedd a oedd wedi dweud wrtho "school do not have the resources to manage him [B] in the interim" ["nid oes gan yr ysgol yr adnoddau i'w reoli [B] yn y cyfamser".]
22. Cafodd B ei wahardd am dridiau o 12 Tachwedd gan ddychwelyd i'r ysgol ar 15 Tachwedd. Gofynnodd teulu B am waith ysgol ychwanegol iddo i'w wneud adref ond dywedodd Mrs A na chafwyd dim gwaith ar ei gyfer.
23. Ar 29 Tachwedd cafodd B ei wahardd am dri diwrnod a hanner arall a'r dyddiad pan ddylai ddychwelyd i'r ysgol oedd 5 Rhagfyr 2013. Dangosodd nodiadau'r ESWTM fod Mrs A wedi anfon e-bost ato ac wedi'i ffonio ynghylch gwaharddiad B a mynegodd bryder nad oedd cymorth digonol ar gael ar gyfer B yn Ysgol D.

24. Mewn llythyr at Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol D, dyddiedig 3 Rhagfyr, gwnaeth Mrs A gais i apelio yn erbyn pedwar gwaharddiad cyfnod penodol B. Roedd Mrs A yn dadlau nad oedd Ysgol D wedi gweithredu'r mesurau ataliol a roddwyd ar waith i reoli / lleihau ymddygiad gwybyddus a rhagweladwy B a'i bod wedi defnyddio gwaharddiadau i gosbi symptomau anabledd B. Eglurodd Mrs A fod y gwaharddiadau wedi effeithio ar hawl B i gael addysg ac ar ei les emosiynol a seicolegol. Cafodd apêl Mrs A ei gyfeirio at y Pwyllgor Disgyblaeth Disgyblion ("PDC") er mwyn i'r Corff Llywodraethu adolygu gwaharddiadau cyfnod penodol y pennaeth.

25. Ar 4 Rhagfyr, yng nghyfarfod ailintegreiddio B, mynegodd Mrs A ei phryderon eto ynglŷn â defnydd Ysgol D o waharddiadau niferus. Dywedodd hi na allai'r ysgol ddarparu'r cymorth y cytunwyd arno i ddiwallu anghenion B, ac na fyddai'r ddarpariaeth hon ar gael pan fyddai B yn dychwelyd i'r ysgol ar 5 Rhagfyr. Dywedodd Mrs A ei bod yn pryderu am les B pe na fyddai Ysgol D yn darparu'r cymorth ychwanegol y dywedwyd roedd ei angen arno ac y byddai hynny'n debygol o olygu y byddai'n cael ei wahardd eto. Yn y cyfarfod hwn dywedodd y Seicolegydd Addysg "...it was becoming more evident that [B] requires additional support over and above the strategies .." ["...roedd yn dod yn fwy amlwg bod angen cymorth ychwanegol arno [B] yn ychwanegol at y strategaethau"] a roddwyd ar waith gan Ysgol D. Cytunwyd y byddai "dull hyblyg tuag at addysg B **hyd ddiwedd y tymor** (fy mhwyslais i) gyda'r awgrym ei fod yn mynychu boreau Llun i lau" yn cael ei fabwysiadu o 5 Rhagfyr gyda Mrs A yn dod i gasglu B bob dydd am 12:45pm.

26. Ar 18 Rhagfyr cyhoeddodd Panel Cymedrolï'r AALI Gytundeb ESAP ar gyfer B. Cytunodd yr AALI i dalu am gymorth cynorthwydd dysgu i B am 25 awr yr wythnos. Cytunodd yr AALI i fonitro darpariaeth ESAP B ac i fod yn bresennol yn ei gyfarfodydd adolygu ffurfiol. Roedd y Cytundeb ESAP yn rhoi cyfrifoldeb ar Ysgol D i gynhyrchu rhaglen astudio a fyddai'n briodol ar gyfer anghenion B, i gynhyrchu IEP wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion penodol B, i gysylltu â rhieni B a'r cyrff allanol sy'n gysylltiedig â darpariaeth AAA B ac, yn olaf, i drefnu adolygiadau ffurfiol B. Er y byddai'r AALI yn ariannu ac yn trefnu cymorth y cynorthwydd dysgu ar gyfer Cytundeb ESAP B, nododd mai Ysgol D fyddai'n gyfrifol am bennu dyletswyddau'r cynorthwydd dysgu.

27. Yng nghyfarfod adolygu B ar 18 Rhagfyr, roedd yr ESWTM a Swyddog Cynhwysiant yr AALI yn bresennol pan drafodwyd asesiad addysgol B a'i gais am ESAP. Yn y nodiadau a oedd yn cofnodi'r cyfarfod hwn, dywedodd y Swyddog Cynhwysiant y dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i leoli B mewn Uned ag Iddi Adnoddau ("yr Uned") ac roedd yn "argymhell yn gryf" y byddai er lles B i'w symud i'r Uned lle byddai'r adnoddau roedd eu hangen arno ar gael iddo. Dywedodd Mrs A ei bod yn dymuno gweld B yn aros mewn addysg brif ffrwd gyda'r cymorth oedd ei angen arno ac y cytunwyd arno'n cael ei ddarparu ar ei gyfer.

28. Cyfarfu'r PDC ac roedd ei benderfyniad yn ddyddiedig 20 Rhagfyr. Roedd cynrychiolydd o'r AALI hefyd yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Cadarnhaodd bedwar gwaharddiad cyfnod sefydlog B.

29. Dychwelodd B i Ysgol D ar 7 Ionawr **2014** ac erbyn hynny roedd y cynorthwydd dysgu yn barod i ddarparu cymorth dysgu am 25 awr yr wythnos i B fel y nodwyd yn ei Gytundeb ESAP. Roedd y cynorthwydd dysgu yn yr ysgol am gyfnod o bythefnos ac yn ystod y cyfnod hwn roedd B yn mynychu Ysgol B yn rhan amser yn ôl y cytundeb.

30. Ar 8 Ionawr, cafodd B asesiad SALT. Daeth yr adroddiad dyddiedig 21 Ionawr i'r casgliad mai "...prif faes anhawster [B] yw cyfathrebu cymdeithasol. Mae'n cael anhawster gyda hunan ymwybyddiaeth, iaith y corff, sgiliau sgwrsio a sgiliau pendantsrwydd."

31. Nid aeth B i Ysgol D ar ôl 24 Ionawr ond roedd yn dal wedi'i gofrestru fel disgybl tan 24 Mawrth. Nid oes dim tystiolaeth bendant fod B wedi cael gwaith ysgol neu addysg amgen yn ystod y cyfnod hwn er bod y Cytundeb ESAP yn parhau'n weithredol ond dywed y Cyngor fod Ysgol D wedi anfon gwaith at B i'w wneud gartref ar 22 Ionawr. Mae awgrymiadau y gallai B fod wedi cael ei addysgu gartref gan Mrs A. Cyflwynodd Mrs A gŵyn i'r Cyngor ar 24 Ionawr, ynghylch Ysgol D, ei Chorff Llywodraethi a methiannau'r AALI i ddarparu'r ddarpariaeth benodol y cytunwyd arni ar gyfer B fel yr amlinellwyd yn ei gytundebau SA, SAP ac ESAP.

32. Cafodd B ei asesu gan CAMHS ym mis Chwefror a Mawrth. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod B "...yn arddangos proffil sy'n ffitio â'r categori

ADHD a'r Sbectrwm Awtistiaeth". Daeth i'r casgliad hefyd bod "arwyddion bod Dyslecsia hefyd yn rhan o broffil B."

33. Ar 24 Mawrth cafodd enw B ei dynnu oddi ar gofrestr mynediad Ysgol D. Cafodd wedyn ei gofrestru fel disgybl mewn ysgol arall ac yn ddiweddarach gwnaeth yr ysgol hon gais i ddiwygio Cytundeb ESAP B, a chytunodd yr AALI i gynyddu nifer oriau'r cymorth dysgu un i un gan gynorthwyydd dysgu ar gyfer B.

34. Ar 14 Ebrill cyflwynodd Mrs A hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd gyda Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC") yn erbyn Corff Llywodraethu Ysgol D. Roedd penderfyniad TAAAC ar 14 Hydref yn feirniadol o ddefnydd yr AALI o Gytundebau ESAP fel opsiwn yn lle'r broses asesiadau statudol. Dywedodd TAAAC ym Mharagraff 90 o'i benderfyniad "...this is not a level of support recognised by the Special Educational Needs Code of Practice for Wales and adopting a scheme not recognised under the Code of Practice deprives parents of their statutory rights." These statutory rights are triggered when a request for a statutory assessment is made to the LEA. The SENTW also said, at Paragraph 90 of its decision, that "a timely and comprehensive statutory assessment would have identified [B's] needs and secured provision to meet those needs. Had a statement been identified as being necessary then there would have been a legal duty upon the local authority to deliver the provision specified in the statement."

["...nid yw hyn yn lefel o gymorth sy'n cael ei chydabod gan God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ac mae mabwysiadu cynllun nad yw'n cael ei gydnabod o dan y Cod Ymarfer yn amddifadu rhieni o'u hawliau statudol." Mae'r hawliau statudol hyn yn cael eu sbarduno pan wneir cais am asesiad statudol i'r AALI. Dywed TAAAC hefyd ym Mharagraff 90 o'i benderfyniad, y byddai "asesiad statudol amserol a chynhwysfawr wedi canfod anghenion B ac wedi sicrhau darpariaeth i ddiwallu'r anghenion hynny. Pe byddai penderfyniad wedi'i wneud bod angen datganiad yna byddai dyletswydd gyfreithiol ar yr awdurdod lleol i sicrhau'r ddarpariaeth a bennwyd yn y datganiad."]

35. Cyfeiriodd penderfyniad TAAAC hefyd at nodyn y Gwasanaeth Seicoleg Addysg ym mis Mawrth 2012, nad oedd materion diagnostig yn flaenoriaeth i B ar y pryd. Dywedodd y TAAAC ym Mharagraff 85 o'i benderfyniad "unfortunately this sentence is symptomatic of the failure of both the Local

Authority and the school to address and to identify [B's] special educational needs. Had those needs been identified then the school would have been better placed to provide the necessary support". The SENTW also said, that "in the meeting on the 18 December 2013 the possibility of [B] transferring to a resourced provision unit at [the Resourced Unit] was discussed. How this unit could have been deemed appropriate to meet [B's] needs is not clear, without first of all those needs being clearly identified".

[“yn anffodus mae'r frawddeg hon yn arwydd o fethiant yr Awdurdod Lleol a'r ysgol i ganfod anghenion addysgol arbennig B. Pe bai'r anghenion hynny wedi cael eu canfod yna byddai'r ysgol wedi bod mewn sefyllfa well i ddarparu'r cymorth angenrheidiol". Dywedodd TAAAC hefyd "yn y cyfarfod ar 18 Rhagfyr 2013 cafodd y posibilrwydd o drosglwyddo B i Uned ag Iddi Adnoddau ("yr Uned") ei drafod. Nid yw'n amlwg sut y gellid bod wedi penderfynu sut y byddai'r uned hon wedi bod yn briodol i ddiwallu anghenion B, cyn bod yr anghenion hynny wedi cael eu nodi'n glir yn gyntaf".]

36. Ar 6 Mai cysylltodd Mrs A â'r Cyngor i holi am gynnydd ei chŵyn. Cafodd ateb gan y Cyngor mewn llythyr ar 13 Mehefin. Roedd Mrs A yn anhapus ag ymateb y Cyngor i'w phryderon ac o ganlyniad cyflwynodd gŵyn i'r Ombwdsmon.

37. Hysbyswyd y swyddfa hon yn ddiweddar gan Mrs A fod B wedi cael Datganiad AAA ar 7 Medi 2015.

Tystiolaeth Mrs A

38. Dywedodd Mrs A fod gan B anawsterau cymdeithasol a chyfathrebu a bod ganddo nodweddion o'r sbectwm ASD/ADHD gan gynnwys gorsensitifrwydd synhwyrdd i gyffyrddiad a sŵn. Mae'n cael anhawster â newidiadau, cyffyrddiad a meithrin perthnasoedd â chyfoedion. Dywedodd Mrs A fod gan B feddwl sefydlog a throsi llythrennol, a'i fod yn dioddef o orbryder a nam sylweddol ar ei olwg. Ceir manylion cwyn Mrs A ym mharagraff 1 yr adroddiad hwn.

39. Dywedodd Mrs A fod anawsterau ymddygiadol B yn hysbys i'r Ysgol, ac y byddai modd eu rhagweld a'u hosgoi pe bai'r mesurau a gynigiwyd i reoli ymddygiad ac anghenion B wedi cael eu dilyn. Dywedodd Mrs A fod cymorth y cynorthwydd dysgu a roddwyd i B yn y Cytundeb ESAP wedi bod ar gael

am bythefnos yn unig ac yn ystod y cyfnod hwn roedd B yn treulio nifer sylweddol lai o oriau yn Ysgol D. Dywedodd Mrs A nad oedd yr AALI wedi darparu'r ddarpariaeth y cytunwyd arni i B o dan ei Gytundeb ESAP yn ystod y pythefnos hwn, a dywedodd nad oedd yr AALI wedi cynnig unrhyw ddarpariaeth o gwbl i B yn dilyn y cyfnod hwn.

40. Roedd Mrs A yn credu bod gwaharddiadau cyfnod sefydlog B yn ganlyniad uniongyrchol i fethiannau Ysgol D i ddilyn ei strategaethau yn ei Gynllun Ymddygiad a'i SAP, ac roedd yn credu pe byddai Ysgol D wedi glynu wrth y strategaethau hyn yna gellid bod wedi lliniaru neu osgoi ymddygiad a oedd wedi'i nodi. Dywedodd Mrs A nad oedd y PDC na'r AALI wedi ystyried ei dadl nad oedd Ysgol D wedi dilyn y mesurau a roddwyd ar waith i reoli ymddygiad rhagweladwy B ac nad oedd wedi darparu'r cymorth gofynnol. Roedd yn credu bod hyn yn y pen draw wedi arwain at ei bedwar gwaharddiad cyfnod sefydlog mewn cyfnod o chwe wythnos.

41. Roedd Mrs A o'r farn bod Ysgol D wedi defnyddio gwaharddiadau cyfnod sefydlog dro ar ôl tro i gadw B o Ysgol D a bod yr ESWTM wedi dweud wrth Ysgol D bod ganddi hawl i wneud hynny. Roedd Mrs A yn credu ei bod am weld B yn cael ei roi yn yr Uned ag Iddi Adnoddau a grybwyllwyd gan Swyddog Cynhwysiant yr AALI yn y cyfarfod adolygu ar 18 Rhagfyr, heb drafodaeth ymlaen llaw o gwbl â hi. Dywedodd Mrs A fod yr Uned ag Iddi Adnoddau wedi'i neilltuo ar gyfer disgyblion ag ymddygiad heriol a threisgar iawn, ac roedd yn credu nad oedd yr AALI wedi canfod ac asesu anghenion addysgol penodol B cyn penderfynu mai'r Uned ag Iddi Adnoddau fyddai'r lle gorau i ddiwallu ei anghenion. Dywedodd Mrs A fod y camau a gymerwyd ac agwedd yr AALI tuag at ei mab a'i anghenion addysgol wedi bod yn achos gofid mawr iddi. Dywedodd Mrs A ei bod wedi cytuno ag Ysgol D a'r AALI i gadw B gartref ym mis Ionawr 2014 am nad oedd yr AALI wedi darparu'r cymorth ychwanegol a nodwyd yn ei Gytundeb ESAP, ac am fod Ysgol D wedi methu'n gyson â gweithredu'r mesurau eraill a argymhellwyd i reoli ymddygiad B.

42. Dywedodd Mrs A ei bod yn anfodlon ag ymateb y Cyngor i'w chŵyn a'i bod yn teimlo bod ei ymchwiliad yn anfoddhaol. Dywedodd fod yr ymateb yn adlewyrchiad o fethiant y Cyngor i ymchwilio'n drylwyr i'w phryderon am ei rôl fel yr AALI a oedd yn gyfrifol am ddarpariaeth AAA B.

43. Yn ei chŵyn i'r Ombwdsmon dywedodd Mrs A nad oedd ymchwiliad y Cyngor a'i ymateb yn cydymffurfio â'r amserlenni ffurfiol a bennwyd yn ei bolisi cwyno. Hefyd, dywedodd nad oedd ymchwiliad y Cyngor yn drylwyr ac nad oedd wedi coladu ac ystyried yr holl wybodaeth oedd ar gael, fel datganiad gan y cynorthwydd dysgu a oedd wedi'i aseinio i B, a bod hynny'n annheg. Roedd Mrs A yn teimlo bod system y Cyngor ar gyfer dewis cwynion i ymchwilio iddynt yn wael, yn gymhleth ac yn ddryslyd gyda'r "cyfrifoldeb ar y cwsmer i ganfod ei ffordd drwy broses feichus a diddychymyg ac aneffeithiol".

Tystiolaeth yr AALI

44. Dywedodd yr AALI ei bod wedi ystyried gofynion AAA B yn llawn a'i fod wedi ymdrechu i ystyried safbwyntiau a dymuniadau rhieni B. Dywedodd yr AALI fod anghenion unigol pob disgybl yn cael eu hasesu ar sail y dystiolaeth a gyflwynir iddo a'i fod yn achos B o'r farn bod y ddarpariaeth briodol wedi cael ei rhoi ar waith i ddiwallu ei AAA. Dywedodd yr AALI hefyd fod darpariaeth B yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd.

45. Dywedodd yr AALI nad oedd wedi cael unrhyw gais am asesiad statudol ar gyfer B, naill ai gan Ysgol D na Mrs A. Dywedodd yr AALI y gellid diwallu anghenion addysgol ychwanegol B drwy Gytundeb ESAP ac nad oedd angen datganiad ffurfiol.

46. Dywedodd yr AALI ei bod wedi cael ei feirniadu yn 2009 gan Lywodraeth Cymru (LIC) ac Estyn (yr Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru sy'n arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru) oherwydd nifer y Datganiadau AAA a gyhoeddwyd yn Wreccsam. O ganlyniad ac yn dilyn cyfarwyddyd LIC i leihau nifer y Datganiadau AAA a gyhoeddwyd a'r angen i ddatblygu systemau amgen yng Nghymru, dywedodd yr AALI ei fod wedi cyflwyno Cytundebau ESAP fel cymorth amgen i blant ag AAA yn ei ardal. Dywedodd yr AALI fod llawer o awdurdodau addysg lleol eraill yng Nghymru wedi cyflwyno systemau amgen o ganlyniad i gyfarwyddyd LIC.

47. Gofynnwyd i'r Cyngor gyflwyno tystiolaeth o "gyfarwyddyd LIC" ond ni chafwyd dim i gadarnhau'r haerriad hwn. Fodd bynnag, mewn ymateb i ymholiadau ychwanegol, cyfeiriodd y Cyngor y swyddfa hon at ddau

adroddiad gan Estyn, gyda'r cyntaf ohonynt yn dilyn arolygiad Estyn o'r AALI ym mis Hydref 2007 ("Adroddiad 2007 Estyn") a'r ail adroddiad a ddilynodd arolygiad Estyn o'r AALI ym mis Tachwedd 2010 ("Adroddiad 2010 Estyn").

48. Dywedodd Adroddiad 2007 Estyn fod "... cyfran y disgyblion â datganiadau, sef 4.37%, yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru, sef 3.15%, a hwn yw'r trydydd uchaf yng Nghymru. Mae'r awdurdod yn addysgu cyfran gymharol uchel o ddisgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn dosbarthiadau neu unedau arbennig mewn ysgolion prif ffrwd, a chyfran yr un mor isel mewn dosbarthiadau cyffredin mewn ysgolion prif ffrwd. Mae swyddogion yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion prif ffrwd i adeiladu eu gallu i nodi a bodloni anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae'r gwaith hwn yn fwy datblygedig mewn ysgolion uwchradd na mewn ysgolion cynradd" (Paragraff 45). Dywedodd Estyn hefyd "Wrth ymateb i ddiffygion a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf o AAA, mae'r awdurdod wedi cymryd camau effeithiol i wella monitro a rheoli gwariant o gyllidebau AAA yr awdurdod a gedwir yn ganolog. Yn dilyn adolygiad trylwyr yn 2005, cynyddodd yr awdurdod y cyllid cyffredinol ar gyfer AAA a diwygiodd y fformiwla ar gyfer ariannu AAA trwy gyllidebau dirprwyedig ysgolion mewn ffordd sy'n cael gwared ar y cymhelliant i ysgolion ofyn am ddatganiadau o AAA. Cyflwynwyd y fformiwla newydd mewn ysgolion cynradd ym mis Ebrill 2006, ac mae cynlluniau cadarn i roi system gyfwerth ar waith mewn ysgolion uwchradd ym mis Ebrill 2008. Ar yr un pryd, mae'r awdurdod yn bwriadu cyflwyno system fwy llym ar gyfer monitro'r defnydd o'r holl gyllid AAA dirprwyedig" (Paragraff 154).

49. Cyfeiriodd y Cyngor hefyd at Adroddiad 2010 Estyn, a fu'n ystyried cymorth y Cyngor ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (tudalen 6). Dywedodd hwn mai "Wreccsam sydd â'r canran uchaf o ddisgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r strategaeth i leihau nifer y datganiadau yn dechrau cael effaith gadarnhaol. O ganlyniad i gydweithio da ag asiantaethau partner, mae'r awdurdod bellach yn darparu cymorth yn yr ysgol ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar heb gynnal asesu statudol."

50. Dywedodd yr AALI pan gafodd Cytundebau ESAP eu cyflwyno yn 2009, roedd yn darparu hyfforddiant ar y system amgen hon i ysgolion, SENCOau a gwasanaethau allanol eraill a oedd yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth AAA, fel

CAMHS, Gwasanaethau Seicoleg a SALT. Cyfeirir at y gwasanaethau arbenigol hyn fel “y gwasanaethau allanol” am weddill yr adroddiad hwn.

51. Gofynnwyd i'r AALI ddangos tystiolaeth fod y Cyngor wedi cymeradwyo cyflwyno ei Gytundebau ESAP drwy ei brosesau penderfynu, bod cyfeiriad at ESAPau yn ei Bolisi ar AAA a'i fod wedi cynhyrchu gwybodaeth ac wedi rhoi cyhoeddusrwydd i Gytundebau ESAP fel darpariaeth amgenach nag asesu statudol. Cyflwynodd yr AALI ddwy dudalen A4, dyddiedig mis Mawrth 2009 gyda'r pennawd “Lleihau Datganiadau”. Yn y dogfennau hyn disgrifiodd yr AALI y camau a gymerwyd ganddo i gyflwyno ESAP fel system amgen. Dywedodd yr AALI ei fod wedi ymweld ag AALI cyfagos a oedd wedi llwyddo i leihau nifer y datganiadau AAA a gyhoeddwyd a'i fod wedi lleihau nifer yr asesiadau statudol a gynhaliwyd ac y gwnaethpwyd cais amdanynt. Dangosodd ddata cymharol fel tystiolaeth o'i lwyddiant i leihau nifer y datganiadau ers gweithredu'r system amgen.

52. Daeth yr AALI i'r casgliad bod llwyddiant yr AALI cyfagos i leihau nifer y Datganiadau AAA wedi'i “effeithio'n sylweddol gan eu dirprwyaethau uwch o gyllid i ysgolion a disgwyliad cytunedig y byddant [yr ysgolion] yn diwallu anghenion mwyafrif y disgyblion o'r gronfa a ddarparwyd”. Cymerodd yr AALI gamau i sicrhau mwy o ddirprwyo a chyflwynodd ddirprwyo “rhithiol” o staff cymorth a oedd yn cael eu hariannu'n ganolog, gyda'r gofyniad bod ysgolion yn cynllunio eu gwariant ar AAA ac yn dangos y defnydd o'r gyllideb.

53. Penderfynodd yr AALI os oedd y system amgen am lwyddo, yna roedd yn rhaid sicrhau bod ei wasanaethau allanol yn ei chefnogi. Dywedodd dogfennau A4 yr AALI fod “Cyfarfodydd wedi cael eu trefnu ym mis Mawrth 2009 i drafod y protocolau a'r prosesau ar gyfer darparu cymorth heb yr angen am Ddatganiad Anghenion Arbennig gyda'r Gwasanaeth Iaith a Lleferydd, Athrawon Cymorth Dysgu Ardal a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg”. Dywedodd yr AALI ei fod wedi darparu hyfforddiant i bob ysgol ar ei “genhadaeth”, a bod y strategaeth hefyd wedi cael ei rhannu â'r ysgolion drwy ei fforymau SENCO.

54. Dywedodd yr AALI fod Cytundebau ESAP wedi disodli llawer o'i Ddatganiadau AAA, a'i fod wedi canolbwyntio ar ddefnyddio Cytundebau ESAP i ddiwallu anghenion plant ag anghenion addysgol ychwanegol (ar lefel uwch na'r hyn a wnaethpwyd o dan eu Cytundebau SAP), yn hytrach nag

asesiadau statudol. Dywedodd yr AALI fod anghenion y rhan fwyaf o blant yn Wrecsam ag AAA yn cael eu diwallu gan Gytundeb ESAP, yn hytrach na Datganiad AAA.

55. Pan fydd yn cael cais am Gytundeb ESAP dywedodd yr AALI fod y cais yn cael ei gyfeirio at ei Banel Cymedroli i gael ei ystyried. Dywedodd yr AALI fod yr ysgol a / neu'r gwasanaeth allanol perthnasol yn penderfynu a fydd yn gwneud cais am Gytundeb ESAP neu asesiad statudol, ac y gwneir hynny â chydysyniad rhieni'r plant. Dywedodd yr AALI nad oedd yn benderfyniad iddo ef, er ei fod yn cyflenwi swyddogion o'r AALI i gynghori ysgolion ar y penderfyniad a yw'n briodol ai peidio i gyflwyno cais am Gytundeb ESAP, neu asesiad statudol, i'r AALI. Dywedodd yr AALI hefyd fod ysgolion yn Wrecsam wedi cael eu hysbysu o'r meini prawf a'r dystiolaeth sydd eu hangen i ategu cais am asesiad statudol.

56. Roedd yr AALI o'r farn bod Cytundebau ESAP yn gyfystyr â Datganiadau AAA a dywed eu bod ill dau'n cael eu monitro a'u hadolygu'n union yr un ffordd gan yr AALI. Dywedodd yr AALI mai'r unig wahaniaeth rhwng y ddau yw bod angen Datganiad AAA i ddefnyddio darpariaeth yn ei Ysgolion Arbenigol.

57. Rhestrododd yr AALI fuddiannau defnyddio Cytundebau ESAP fel system amgen, a dywedodd eu bod yn llai biwrocraataidd, yn lleihau amser asesu (gan fod y broses asesu AAA yn 26 wythnos fel arfer) a'u bod yn galluogi plentyn i gael yr adnoddau sy'n diwallu angen addysgol a nodwyd mewn ffordd fwy amserol a chost effeithiol.

58. Eglurodd yr AALI nad oedd yn gysylltiedig â chyfnod pontio B o flwyddyn dau i flwyddyn tri, ac mai Ysgol D oedd yn gyfrifol am hynny. Cysylltodd ag Ysgol D a ddywedodd fod cymorth pontio'n cael ei ddarparu ar gyfer pob plentyn a oedd yn symud o flwyddyn dau i flwyddyn tri a'i fod yn cynnwys wythnos bontio gyda'r athro dosbarth blwyddyn tri yn ystod y mis Gorffennaf cyn y symud. Roedd B wedi cael cymorth ychwanegol i baratoi ar gyfer y symud.

59. Eglurodd y Cyngor beth oedd y broses arferol pan oedd yn cael cwyn o dan ei Bolisi Cwynion Corfforaethol ("y Polisi Cwynion"). Byddai'r gŵyn yn cael ei chydnabod a byddai Swyddog Ymchwilio yn y Tîm Cwynion

Corfforaethol yn cael ei ddyrannu ar ei chyfer. Ar yr un pryd, byddai'r achwynydd yn cael ei hysbysu o'r broses gwyno a'r amserlenni sydd dan sylw. Roedd y Cyngor yn derbyn na chafodd cwyn Mrs A, a gafwyd ar 24 Ionawr 2014, ei phrosesu, ei chofnodi na'i hymchwilio'n unol â'r Polisi Cwynion tan 6 Mai. Eglurodd y Cyngor mai amryfusedd ar ei ran oedd yn gyfrifol am hyn a phriodolwyd hynny'n rhannol i absenoldeb Rheolwr y Tîm Cwynion oherwydd salwch ar y pryd, ynghyd â'r adnoddau cyfyngedig oedd ar gael i'r Tîm.

60. Dywedodd y Cyngor fod yr ymchwiliad i gŵyn Mrs A yn gymhleth gan fod nifer o'r materion a godwyd yn ymwneud â materion o fewn ysgol a bod prosesau cyfreithiol yn cael eu dilyn. Byddai'r rhain yn eithrio cwyn Mrs A rhag bod yn destun ymchwiliad o dan ei Bolisi Cwynion. Dywedodd y Cyngor fod y swyddog ymchwilio wedi ymdrechi i roi sylw i bryderon Mrs A mewn ffordd "mor gynhwysfawr" â phosibl o fewn cylch gwaith y Cyngor.

61. Roedd y Cyngor yn derbyn bod methiannau wedi bod yn y ffordd y cafodd cwyn Mrs A ei rheoli a dywed fod y ffordd yr oedd cwynion yn cael eu rheoli wedi caei ei hailstrwythuro a bod tîm newydd wedi'i greu ym mis Tachwedd 2014. Dywedodd y Cyngor fod ei weithdrefnau a'i brosesau wedi cael eu diweddarau i wneud yn siŵr na fyddai cwynion yn cael eu hesgeuluso yn y dyfodol ac na fyddai camgymeriadau o'r fath yn digwydd eto. Nododd welliannau yn ei wasanaeth delio â chwynion.

Dadansoddiad a chasgliadau

62. Rwyf wedi ystyried cwyn Mrs A yn ofalus ynghyd â'r wybodaeth a gafwyd ganddi hi, yr AALI a'r Cyngor. Rhaid i mi bwysleisio eto bod cyfyngiadau ar fy mhwerau yn ôl Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sy'n golygu na allaf ystyried y rhan fwyaf o bryderon Mrs A sy'n ymwneud â rheolaeth fewnol, disgyblaeth a / neu benderfyniadau / gweithredoedd gan Ysgol D a / neu ei Gorff Llywodraethu.

63. Mae cysylltiad annatod rhwng pryderon Mrs A ac rwyf felly wedi eu hystyried gyda'i gilydd fel ei phrif gŵyn. Maent yn ymwneud â methiant yr AALI i ystyried yn briodol, i asesu ac yn y diwedd i ddarparu cymorth priodol i ddiwallu AAA B. Rwyf wedi ymdrin â'r mater o ddelio â chwynion ar wahân.

Y brif gŵyn

64. Mae polisi'r AALI ar gyfer darpariaeth AAA yn disgrifio dull graddoledig sy'n adlewyrchu'r darpariaethau yn y Cod AAA. Dywed Polisi'r AALI os nad yw gofynion AAA penodol y plentyn yn cael eu diwallu'n ddigonol gan gymorth ac ymyriadau yn yr ysgol, mae angen ystyried asesiad statudol. Hefyd mae ymrwymiad ar yr AALI o dan adran 323 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n datgan bod yn rhaid iddo gynnal asesiad statudol o blentyn os yw o'r farn bod gan blentyn AAA ac mae hynny'n **angenrheidiol** (fy mhwyslais i), neu ar gais rhiant neu'r ysgol (adran 329). Fodd bynnag, pe bai'r AALI yn penderfynu nad oes angen asesiad statudol, mae gan y rhiant hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr AALI i'r TAAAC.

65. Nid oes cyfeiriad at Gytundebau ESAP, ac nid ydynt yn cael eu cydnabod, ym Mholisi'r AALI ar gyfer AAA, nid fel rhan o'i ddull graddoledig nac fel opsiwn yn lle asesiad statudol. Yn yr un modd nid oes cyfeiriad at Gytundebau ESAP mewn dim o wybodaeth yr AALI, ei weithdrefnau a / neu ei bolisiâu ar gyfer darpariaeth AAA. Daeth TAAAC i'r casgliad nad yw Cytundeb ESAP "yn lefel cymorth sy'n cael ei gydnabod gan God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ac mae mabwysiadu cynllun nad yw'n cael ei gydnabod o dan y Cod Ymarfer yn amddifadu rhieni o'u hawliau statudol". Ar ôl gweld y dystiolaeth yn yr achos hwn a'r amser y cafodd B ei adael heb ddarpariaeth addysgol addas rwyf yn ategu barn TAAAC ar y mater ac rwyf o'r farn nad oedd Cytundeb ESAP yn gyfrwng dilys i ddiwallu AAA B fel opsiwn amgen i'r broses asesu statudol.

66. Roedd yr AALI yn dadlau mai mater i'r ysgol, mewn cydweithrediad â gwasanaethau allanol, yw'r penderfyniad i wneud cais am Gytundeb ESAP neu asesiad statudol, gyda chydysyniad y rhieni. Rhaid i'r datganiad hwn gael ei ystyried yng nghyd-destun cysylltiad estynedig yr AALI a pha mor rhesymol oedd ei weithredoedd, pan fo'r dystiolaeth wedi dangos nad oedd cymorth yn yr ysgol yn llwyddo i ddiwallu anghenion B. Yn y cyd-destun hwn, roedd yr ESWTM yn bresennol mewn amryw o gyfarfodydd yn ymwneud â B o Fedi 2013 ymlaen a bu hefyd mewn trafodaethau â Mrs A a phennaeth Ysgol D ynghylch pryderon am ymddygiad B a'i anghenion addysgol. Erbyn mis Hydref 2013 roedd yr AALI yn llawn sylweddoli bod anghenion B yn golygu bod angen mwy o gymorth arno na'r hyn roedd yn ei gael o dan ei SAP ac er ei fod yn dadlau nad oedd rhiant B nac Ysgol D wedi gofyn am asesiad

statudol, gallai'r AALI fod wedi gweithredu o dan y ddyletswydd gyffredinol yn adran 323 o Ddeddf 1996. Cafodd yr AALI gyfle i adolygu anghenion B yng ngoleuni hyn a'i Bolisi AALI ond ni wnaeth hynny; roedd yn derbyn hyn ac yn ddiweddarach cyhoeddodd Gytundeb ESAP i B ar 18 Rhagfyr 2013, yn groes i'w ddarpariaethau Polisi cyhoeddedig a'r Cod AAA.

67. Wedi dweud hynny, cyhoeddodd yr AALI Gytundeb ESAP i B ac roedd cymorth cynorthwydd dysgu yn barod ar ei gyfer pan ddychwelodd i Ysgol D ar 7 Ionawr. Fodd bynnag, nid oedd dim tystiolaeth i ddangos sut y byddai B yn cael ei ailintegreiddio i'r ysgol na dyddiad / strategaeth ar gyfer dychwelyd i addysg llawn amser (cytunwyd y byddai'n mynychu'r ysgol yn rhan amser tan ddiwedd Rhagfyr 2013 yn unig).

68. Roedd cymorth cynorthwydd dysgu wedi'i aseinio i B o dan ei ESAP am 25 awr yr wythnos ond nid oedd dim tystiolaeth ei bod wedi cael unrhyw hyfforddiant ar gyflwr B na'r strategaethau oedd ar waith i helpu ei gyflwr, na sut y dylai ddarparu cymorth iddo. Hefyd, roedd y cymorth hwn ar gael am bythefnos yn unig, ac nid wyf wedi gweld dim tystiolaeth bod yr AALI wedi gwneud unrhyw drefniadau eraill ar ôl hynny i ddarparu'r cymorth ychwanegol o dan ei ESAP. Yn yr un modd, nid oes dim tystiolaeth bod ESAP B wedi cael ei adolygu. Unwaith eto, collodd yr AALI y cyfle i ystyried asesiad statudol o anghenion B ac i ystyried y cymorth a fyddai'n briodol ar ei gyfer.

69. Ar ôl 24 Ionawr 2014 ni fu B yn mynychu Ysgol D ond roedd yn parhau wedi'i gofrestru fel disgybl yn yr ysgol tan 24 Mawrth 2014. Os oedd gan Gytundebau ESAP yr un manteision â Datganiadau, fel yr oedd yr AALI yn ei haeru, yna yn ystod y cyfnod hwn, byddai'r AALI wedi bod yn gyfrifol am adolygu a / neu drefnu addysg addas (sy'n briodol i anghenion unigol y plentyn) ar gyfer B. Nid wyf wedi gweld dim tystiolaeth bod B wedi cael unrhyw gymorth ychwanegol / amgen gan yr AALI, ac er na chafodd y mater hwn yn benodol ei godi yng nghwyn Mrs A, yn fy marn i mae hyn yn arwydd o'r ffordd ddarniog a fabwysiadwyd gan yr AALI i ddarparu cymorth priodol i B i ddiwallu ei AAA.

70. Yn 2009, dywedodd yr AALI ei fod wedi cymryd camau i sicrhau bod pob ysgol a gwasanaeth allanol a oedd yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth AAA yn ei ardal yn cytuno, wedi cael hyfforddiant ac yn ymwybodol o'i "genhadaeth" i ddefnyddio system amgen Cytundebau ESAP fel dewis heblaw asesu statudol. Gwnaethpwyd hyn yn benodol i leihau nifer y

Datganiadau AAA a gyhoeddir, a nifer yr asesiadau statudol y gwnaethpwyd cais amdanynt a / neu roedd yn eu cael, yn unol ag ymagwedd Llywodraeth Cymru at y ddarpariaeth AAA yng Nghymru. Nid yw'r AALI wedi cyflwyno dim tystiolaeth o gyfarwyddyd o'r fath gan Lywodraeth Cymru ac er bod adroddiadau Estyn yn ymddangos eu bod yn ffafrio'r dull hwn, a gall hyn fod yn awgrym o fwriad polisi Llywodraeth Cymru i leihau nifer y Datganiadau AAA a gyhoeddir yng Nghymru, nid yw'n cynnig bod AALLau yn rhoi'r gorau i gyhoeddi Datganiadau AAA nac yn dod o hyd i ddewis heblaw asesiad statudol ym mhob achos. Mae'n ymddangos bod yr AALI wedi bod yn rhy awyddus yn ei ymdrechion i leihau nifer y Datganiadau AAA a'i fod wedi rhoi'r cyfrifoldeb ar ysgolion yn ei ardal i chwilio am opsiynau heblaw asesu statudol, heb eu hatgoffa / eu cyfarwyddo ar y cyfrifoldebau statudol cyffredinol o dan y Cod AAA a'r ddeddfwriaeth. Yn achos B, aeth cryn amser heibio heb i'w anghenion addysgol gael eu canfod, eu hasesu a'u diwallu, ac arweiniodd hyn at gyfnod hir heb i B gael addysg briodol.

71. Mae'r AALI yn mynnu bod Cytundebau ESAP yn "gyfwerth" â Datganiadau AAA ond nid yw hyn yn wir. Nid yw ESAP yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar yr AALI i ddarparu'r ddarpariaeth AAA a bennwyd. Mae Datganiad AAA yn gwneud hynny. Mae Cytundebau ESAP yn amddifadu rhieni a phlant o'u hawliau statudol i apelio i TAAAC sy'n rhan o'r broses asesu statudol. Mae'r hawliau statudol hyn yn cael eu sbarduno pan wneir cais am asesiad statudol i'r AALI.

72. Nid yw asesiad statudol o reidrwydd yn arwain at gyhoeddi Datganiad AAA ond gallai fod wedi helpu'r AALI i ganfod anghenion addysgol penodol B a'r strategaeth briodol i ddiwallu ei anghenion.

73. Mae Polisi'r AALI yn eglur. Pan ddaeth yn amlwg bod yr ymyriadau a'r cymorth addysgol a ddarparwyd i B yn yr ysgol yn annigonol i ddiwallu ei ofynion AAA, dylai B fod wedi cael ei **ystyried** (fy mhwyslais i) ar gyfer asesiad statudol. Yn wir daeth TAAAC i'r casgliad y byddai "Asesiad statudol amserol a chynhwysfawr wedi canfod anghenion B ac wedi sicrhau darpariaeth i ddiwallu'r anghenion hynny".

74. Dywedodd Mrs A fod B wedi cael Datganiad AAA ar 7 Medi 2015. Pe na bai'r AALI wedi cynnal asesiad statudol o anghenion AAA B, byddwn wedi gwneud argymhelliad o'r fath yn yr adroddiad hwn.

75. Ar sail y dystiolaeth a gafwyd, rwyf wedi dod i'r casgliad bod yr AALI wedi methu ag asesu a chanfod anghenion addysgol B, ac felly wedi methu â darparu cymorth priodol i ddiwallu'r anghenion hynny a ganfuwyd. Mae'r methiannau a nodir yn yr adroddiad hwn yn cyfrif fel achos o gamweinyddu sy'n golygu anghyfiawnder i Mrs A, ond yn enwedig i B, ac felly rwyf yn **cadarnhau'r** brif gŵyn.

76. Rhaid ystyried y pryderon a nodwyd gennyf am ddefnydd yr AALI o Gytundebau ESAP gyda golwg ar fudd ehangach y cyhoedd. Gallai defnydd yr AALI o Gytundebau ESAP fel opsiwn amgen i asesiadau statudol fod wedi effeithio ar blant eraill ag AAA yn ardal Wrecsam. Mae dystiolaeth bod opsiynau yn hytrach na Datganiadau AAA ffurfiol yn cael eu defnyddio am gyfnodau hir heb i'r AALI ystyried asesiadau statudol ffurfiol o anghenion. Mewn llawer o achosion gall AALLau yng Nghymru ddefnyddio opsiynau yn lle darpariaeth AAA yn ddilys yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru ac AALLau, ond os nad yw trefniadau o'r fath yn llwyddo i ddiwallu anghenion plentyn rhaid i AALLau sicrhau nad ydynt yn colli golwg ar eu dyletswyddau statudol. Mae newidiadau i'r gyfundrefn AAA yng Nghymru yn cael eu cynnig drwy'r Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Fodd bynnag, nes bydd y gyfraith yn newid yng Nghymru rhaid i AALLau barhau i weithredu o fewn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol.

Methiant y Cyngor i ddelio'n briodol â chŵyn Mrs A

77. Dywedodd Mrs A nad oedd y Cyngor wedi ateb ei holl bryderon, ei bod wedi colli ffydd ym mhroses gwyno'r Cyngor a'i bod yn y diwedd yn teimlo bod ei ymchwiliad yn ddiwerth. Dywedodd y Cyngor y byddai cwyn Mrs A fel arfer wedi'i heithrio rhag cael ei hystyried o dan ei bolisi cwynion corfforaethol gan fod ei chwynion yn ymwneud â materion ysgolion, ac nad oedd yn wasanaeth yr oedd yn ei ddarparu i'r cyhoedd. Dylai'r Cyngor fod wedi hysbysu Mrs A o'r sefyllfa hon o'r cychwyn, gan ei bod yn naturiol ddigon yn credu y byddai ymchwiliad priodol i'w chŵyn yn cael ei gynnal gyda'r disgwyliad y byddai'n cael ymateb cadarn i'r ymchwiliad. Yn amlwg nid oedd hyn yn wir, ac roedd yn ddealladwy bod Mrs A yn siomedig.

78. Mae'r Cyngor wedi cydnabod y methiannau yn ei broses ymchwilio ac mae wedi derbyn ei fethiant i ddilyn y polisi cwyno. Rwyf wedi nodi bod y Cyngor wedi gwneud newidiadau i'w weithdrefn rheoli cwynion i sicrhau na fydd y methiannau hyn yn digwydd eto. Fodd bynnag, mae'r methiannau a nodwyd yn y ffordd roedd y Cyngor wedi delio â'r gŵyn yn cyfrif fel camweinyddu, ac mae wedi golygu anghyfiawnder i Mrs A. Mae'r methiannau hyn wedi golygu bod Mrs wedi gorfod treulio mwy o amser yn olrhain y gŵyn. Rwyf felly'n **cadarnhau** cwyn Mrs A.

Argymhellion

79. Rwyf yn **argymell** bod y Cyngor / AALI yn gweithredu'r argymhellion canlynol o fewn **un mis** ar ôl dyddiad yr adroddiad oni nodir yn wahanol:

- (a) Bod y Prif Weithredwr yn ymddiheuro i Mrs A am y methiannau a nodwyd ym mhrif gŵyn yr adroddiad hwn.
- (b) Yn cydnabod y methiannau cydnabyddedig a nodwyd yn y ffordd yr oedd yn delio â chwynion, ac yn cydnabod yr amser a'r drafferth yr aeth Mrs A iddo i wneud y gŵyn hon, ac felly dylai'r Cyngor ymddiheuro i Mrs A a chynnig iawndal o £350 iddi.
- (c) (i) Ystyried a oes angen hyfforddi staff sy'n gysylltiedig â delio â chwynion drwy'r Polisi Cwynion Corfforaethol, i sicrhau nad yw'r methiannau a nodwyd yn cael eu hailadrodd.

(ii) Ystyried a oes angen hyfforddiant pellach ar gwynion yn ymwneud ag ysgolion ar gyfer staff sy'n delio â chwynion, ac ystyried cyflwyno proses ar gyfer ei staff i nodi cwynion sydd wedi'u heithrio ac i gyfeirio'r achwynydd at y broses gwyno gywir, o fewn cyfnod rhesymol.

80. Dylai'r AALI / Cyngor, o fewn **tri mis** ar ôl cyhoeddi'r adroddiad terfynol:

- (a) Canfod a chyfarwyddo arbenigwr addysgol annibynnol i gynnal adolygiad o ddogfennaeth yr AALI a'r ddarpariaeth addysgol a roddwyd i B rhwng Rhagfyr 2013 a mis Mawrth 2014. Os bydd yr adolygiad yn dangos bod y ddarpariaeth a wnaethpwyd yn anaddas,

dylai'r AALI roi cynllun ar waith sy'n disgrifio sut y bydd yn awr yn gwneud iawn am y diffyg mewn unrhyw ddarpariaeth addysgol yr oedd B wedi'i cholli, ac yn ei weithredu. Dylai'r AALI hysbysu'r Ombwdsmon a Mrs A o ganlyniad yr adolygiad ac unrhyw argymhellion sydd wedi deillio o'r adolygiad hwnnw.

(b) Adolygu ei Bolisi AAA cyhoeddedig o ran Cytundebau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy Estynedig yng ngoleuni'r methiannau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn.

(c) Archwilio'r Cytundebau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy Estynedig sydd ar waith ar hyn o bryd ac ystyried a oes achosion lle dylid cynnal asesiad statudol yn unol â'i Bolisi AAA. Dylai'r AALI gyflwyno canlyniadau'r Archwiliad hwn i'r Ombwdsmon ynghyd ag unrhyw argymhellion sydd wedi deillio ohono.

81. Rwyf yn falch o nodi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrth gyflwyno sylwadau ar fersiwn drafft yr adroddiad hwn wedi cytuno i weithredu'r argymhellion hyn.



Nick Bennett
Ombwdsmon

22 Ionawr 2016

Atodiad 1

Rhestr o fyrfoddau

ADHD	–	Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
ASD	–	Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig
CAMHS	–	Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
ESAP	–	Cytundebau Gweithredu a Mwy gan yr Ysgol Estynedig
Estyn	–	Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
ESWTM	–	Rheolwr Tîm Gweithwyr Cymdeithasol Addysg
IEP	–	Cynllun Addysg Unigol
AAI	–	Awdurdod Addysg Lleol
PDC	–	Pwyllgor Disgyblaeth Disgyblion
SA	–	Gweithredu gan yr Ysgol
SALT	–	Therapi Iaith a Lleferydd
SAP	–	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy
AAA	–	Anghenion Addysgol Arbennig
SENCO	–	Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig
TAAAC	–	Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
LIC	-	Llywodraeth Cymru

Atodiad 2

Deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau perthnasol

Rwyf wedi ystyried y ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol canlynol ynghyd â Pholisïau Perthnasol y Cyngor:-

- Dywed **Deddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) ("Deddf 1996")** y dylai pob plentyn ag anghenion addysgol arbennig ("AAA"), i'r graddau posibl, gael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd cyhyd ag y bod modd sicrhau darpariaeth ddigonol, yn ôl eu hanghenion, a chyhyd â nad yw hynny'n anghydnaws ag addysg effeithlon y plant eraill yn yr ysgol a'r defnydd o'i hadnoddau. Dywed y Ddeddf hon y dylai canllaw gael ei lunio i roi cyngor ac arweiniad manwl a phenodol i awdurdodau addysg lleol ("AALI") ar sut i gydymffurfio â'u dyletswyddau AAA statudol ac i ymgymryd â'r swyddogaethau hynny. Yng Nghymru cafodd y canllaw ei gynhyrchu gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2002, a chyfeirir ato fel Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Cymru 2002.
- O dan **Adran 312** o Ddeddf 1996, mae plant yn cael eu diffinio fel rhai ag AAA os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer. Diffinnir anhawster dysgu fel plentyn sy'n cael anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy na mwyafrif y plant o'r un oedran. Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu yn achos plant dwyflwydd oed neu hŷn, "educational provision is additional to, or otherwise different from, the educational provision made generally for children of their age in schools maintained by the LEA..."
- O dan **Adran 323** o Ddeddf 1996, gall AALI benderfynu cynnal asesiad statudol o blentyn os yw'r AALI o'r farn bod gan y plentyn AAA a bod angen penderfynu ar y ddarpariaeth AAA ar gyfer unrhyw anhawster dysgu sydd gan y plentyn. Pan fydd AALI yn penderfynu cynnal asesiad o dan yr adran hon, bydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i riant y plentyn o'r penderfyniad hwnnw a'r rhesymau dros wneud y penderfyniad. Os, ar ôl rhoi'r rhybudd bydd yr AALI yn penderfynu peidio ag asesu AAA y plentyn, bydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i riant y plentyn am y rheswm dros y penderfyniad.

- O dan **Adran 329** o Ddeddf 1996 gall AALI benderfynu cynnal asesiad statudol o blentyn os yw'n tybio bod hynny'n angenrheidiol, neu ar gais rhiant neu'r ysgol. Fodd bynnag, pe byddai'r AALI yn penderfynu nad oes angen asesiad statudol; mae gan y rhiant yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr AALI i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC").
- O dan **Adran 19** o Ddeddf 1996 bydd pob AALI yn gwneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas yn yr ysgol, neu yn rhywle heblaw ysgol, ar gyfer y plant hynny sydd o fewn oedran ysgol gorfodol nad ydynt oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu reswm arall, yn cael addysg addas am ryw gyfnod, oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar eu cyfer. I'r dibenion hyn, diffinnir addysg "addas" fel "addysg effeithlon sy'n addas ar gyfer oedran, gallu, doniau ac ar gyfer unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd gan y plentyn".
- Roedd **Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig 2002 ("y Cod AAA")** yn weithredol o 1 Ebrill 2002 ac ers y dyddiad hwnnw rhaid i bob AALI yng Nghymru gydymffurfio ag ef. Prif nod y Cod yw galluogi plant ag anghenion addysgol arbennig i gyrraedd eu llawn botensial, i gael eu cynnwys yn llawn yng nghymunedau eu hysgol ac i symud ymlaen yn llwyddiannus i oedolaeth. Mae egwyddorion sylfaenol y Cod AAA fel a ganlyn:
 - Dylai anghenion plentyn ag AAA gael eu diwallu
 - Fel rheol caiff anghenion addysgol arbennig plant eu diwallu mewn ysgolion neu sefydliadau prif ffrwd
 - Dylid ceisio barn y plentyn a'i chymryd i ystyriaeth
 - Mae gan rieni rôl holl bwysig i'w chwarae i gefnogi addysg eu plentyn
 - Dylid cynnig cyfle llawn i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig i gael addysg eang, gytbwys a pherthnasol

Mae'r Cod AAA yn caniatáu hyblygrwydd ac amrywiad yn yr ymatebion i ddarpariaeth AAA gan ysgolion, sefydliadau blynyddoedd cynnar ac AALLau ond mae angen iddynt ddangos yn eu trefniadau ar gyfer plant ag AAA eu bod yn cyflawni eu dyletswydd statudol i roi sylw i'r Cod AAA. (Paragraff 1:47).

Mae'r Cod AAA yn disgwyl y bydd AALLau yn cyhoeddi eu trefniadau cyffredinol, gan gynnwys unrhyw gynlluniau sy'n amlinellu amcanion, targedau ac amserlenni sy'n cynnwys trefniadau lleol ar gyfer canfod, monitro a darparu cymorth i ysgolion ar gyfer plant ag AAA. Rhaid i'r AALI hefyd sicrhau hyfforddiant, cyngor a chymorth i staff sy'n gweithio yn y maes AAA ac esbonio'r elfen honno o'r ddarpariaeth ar gyfer plant sydd ag AAA (ond heb ddatganiadau) y mae'r AALI yn disgwyl iddi gael ei diwallu fel rheol o gyllidebau ysgolion a gynhelir a'r elfen honno o'r ddarpariaeth y mae'r awdurdod yn disgwyl iddi gael ei diwallu fel rheol o arian sydd ganddo'n ganolog (Paragraff 1:23). Mae Adran 7 o'r Cod AAA yn ymdrin â'r broses asesu statudol ac mae'n cydnabod y bydd anghenion mwyafrif y plant ag AAA yn cael eu diwallu'n effeithiol mewn sefydliadau prif ffrwd drwy Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy neu Weithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy heb yr angen i'r AALI gynnal asesiad statudol. Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion bydd angen i'r AALI gynnal asesiad statudol ac yna ystyried a ddylid llunio datganiad ai peidio (Paragraff 7:1).

Mae hefyd yn cydnabod bod asesiad statudol yn cynnwys ystyriaeth gan yr AALI a oes angen asesiad o AAA y plentyn gan gydweithredu â rhieni, yr ysgol ac asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r plentyn. Os bydd yr AALI yn penderfynu bod angen asesiad statudol yna dylai'r asesiad gael ei gynnal mewn cydweithrediad clos â rhieni, ysgolion ac asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r plentyn (paragraff 7:2). Pan fydd yr AALI yn penderfynu a oes angen asesiad statudol, gall ddod i'r casgliad y byddai ymyriadau yn yr ysgol yn briodol neu, gall yr AALI gynnig dulliau gwahanol y gallai'r ysgol eu defnyddio i helpu'r plentyn drwy ymyriad o'r fath. Os mai dyna oedd yr achos, gall yr ysgol ddod i'r casgliad nad oedd angen asesiad statudol (paragraff 7:5).

Mae'r Cod AAA hefyd yn cydnabod na fydd asesiad statudol ynddo'i hun bob amser yn arwain at ddatganiad. Gall yr wybodaeth a gesglir yn ystod asesiad ddangos sut y gall yr ysgol ddiwallu anghenion y plentyn heb yr angen am unrhyw ddarpariaeth addysgol arbenigol a fyddai'n cael ei phennu gan yr AALI drwy ddatganiad, fel darparu darn neilltuol o gyfarpar a fyddai'n galluogi'r ysgol, o dan arweiniad cymorth arbenigol i helpu i ddiwallu anghenion y

plentyn neu ddyfeisio strategaethau amgen a all alluogi'r plentyn i wneud cynnydd (Paragraff 7:6).

Dywed y Cod AAA y gall plant â datganiad gael eu haddysgu yn rhywle ar wahân i'r ysgol, naill ai lle mae'r AALI wedi gwneud trefniadau eraill neu lle mae rhieni'r plentyn wedi gwneud trefniadau addas. Fodd bynnag, os oes gan y plentyn ddatganiad, mae dyletswydd o hyd ar yr AALI i sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu (Paragraff 8:95).

Mae'r Cod AAA yn disgrifio dull graddoledig tri cham (model gweithredu ac ymyrryd mewn ysgolion a sefydliadau ar gyfer plant ag AAA) i ddiwallu darpariaeth AAA plentyn, gan gychwyn ag ymyriadau yn yr ysgol drwy Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/ Gweithredu yn yr Ysgol ("SA") a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy / Gweithredu yn yr Ysgol a Mwy ("SAP"). Mae trydydd cam yr ymyriad hwn yn cynnwys ystyried asesiad statudol gan yr AALI perthnasol pan fydd ymyriadau yn yr ysgol wedi methu â diwallu gofynion AAA y plentyn unigol. Mae'r dull hwn yn cydnabod continwwm o anghenion addysgol arbennig a fydd, pan fydd angen , yn cyflwyno arbenigedd arbenigol gynyddol i gynorthwyo â'r anawsterau y gall y plentyn fod yn eu profi. Dylai'r AALI hefyd ddarparu gwybodaeth lawn i ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau iechyd ac asiantaethau gwirfoddol lleol ar drefniadau asesiadau statudol a gweithdrefnau'r AALI (Paragraff 10:36).

- Mae **Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2002** yn gosod dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol i gyhoeddi gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â darparu addysg ar gyfer plant ag AAA. Yn benodol, mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi eglurhad ar y rhan honno o ddarpariaeth AAA y maent yn disgwyl i ysgolion a gynhelir ei hariannu o'u cyllideb, a'r elfen honno y byddant yn disgwyl ei hariannu eu hunain. Rhaid iddynt hefyd gyhoeddi gwybodaeth am nodau cyffredinol eu polisi ar AAA, yn ogystal â chymau penodol maent yn eu cymryd ar faterion AAA.
- O dan **Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010** ("**Rheoliadau 2010**") mae ysgolion yn cael arweiniad clir ar ba bryd y gallant dynnu disgybl oddi ar eu cofrestrau derbyn. Mae rhestr o seiliau rhagnodedig

sy'n datgan pa bryd y dylai enw disgybl oedran ysgol gorfodol gael ei dynnu oddi ar gofrestr mynediad ysgol a hefyd ei chofrestr presenoldeb.

- Mae **Polisi a Darpariaeth Addysg Arbennig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ("Polisi'r AALI")** ar gyfer 2006-2016 yn amlinellu ac yn cadarnhau'r dull a nodir yn y Cod AAA, fel y fframwaith priodol ar gyfer darparu AAA yn ei ardal. Mae darpariaethau Polisi'r AALI i raddau helaeth iawn yn adlewyrchu'r darpariaethau hynny a geir yn y Cod AAA. Dywed y bydd gan bob ysgol yn ei ardal Bolisi AAA sy'n disgrifio'r trefniadau a wneir ar gyfer plant ag AAA; er enghraifft, bod yr athro dosbarth / pwnc yn arsylwi ar y plentyn; arsylwadau gan rieni ac asesu drwy ddysgu. Wrth gynorthwyo plant ag AAA mae Polisi'r AALI yn disgrifio dull graddoledig (gweithredu ac ymyrryd mewn ysgolion a sefydliadau addysg gynnar i helpu plant ag AAA) y dylai ysgolion eu dilyn. Mae'r dull hwn yn cydnabod y dylid cynyddu arbenigedd arbenigol os bydd angen er mwyn helpu plentyn os gwelir nad yw'r dull graddoledig yn ddigonol ar gyfer AAA unigol y plentyn. Yn yr achos hwn mae Cynllun Addysg Unigol ("IEP") yn aml yn cael ei lunio ar gyfer y plentyn gan athro neu athrawon yr ysgol a'r SENCO (mae'r Cydlynnydd AAA fel arfer yn athro sy'n arwain ar AAA yn yr ysgol), gyda'r IEP yn cael ei rannu a'i adolygu â rhiant neu rieni'r plentyn, yr ysgol ac unrhyw arbenigwr sy'n rhoi cyngor ar anghenion y plentyn unigol.

Mae gweithredoedd ac ymyriadau o'r fath yn ychwanegol at neu'n wahanol i'r rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol. Mae diwallu AAA y plentyn yn ddull graddoledig ac, ar y dechrau, yr ysgol berthnasol, ac nid yr AALI sy'n gyfrifol amdano. Yn y sectorau cynradd ac uwchradd, mae'r dull graddoledig yn dechrau drwy ddarparu Gweithredu gan yr Ysgol ("SA") ac os bydd adolygiad yn dangos nad yw'r cymorth yn ddigonol bydd y plentyn yn symud ymlaen i gael cymorth drwy Weithredu gan yr Ysgol a Mwy ("SAP"). Mae'r darpariaethau hyn ar gael yn yr ysgol gyda'r athro dosbarth yn gyfrifol am gynllunio a chyflawni IEP y plentyn o ddydd i ddydd. Mae'r SENCO yn gyfrifol am gynllunio unrhyw ymyriadau y bydd eu hangen ar y plentyn yn y dyfodol, yn dilyn trafodaethau â'r athro dosbarth a'r rhieni. Mae'r SENCO hefyd yn monitro ac yn adolygu'r ymyriad yn yr ysgol y cytunwyd arno.

- O dan Bolisi AAA yr AALI os gwelir ar ôl cynnal adolygiad nad yw'r cymorth a'r ymyriadau yn yr ysgol (SA a SAP) yn ddigonol i ddiwallu gofynion AAA y plentyn, yna dylai'r AAA ystyried a oes angen cynnal asesiad statudol o AAA

y plentyn. Nid yw asesiad statudol o reidrwydd yn arwain at Ddatganiad AAA ond mae'n llwybr ffurfiol i asesu a chanfod gofynion AAA plentyn.

- Dywed Polisi'r AAA hefyd fod yr AALI yn cynnal asesiadau statudol yn unol â'r gweithdrefnau a geir yn y Cod AAA a bod ceisiadau o'r fath fel arfer yng ngham olaf y dull graddoledig. Mae proses ac amserlen ar gael i'r AALI i asesu ac i goladu tystiolaeth o'r ymyriadau yn yr ysgol, cynnydd / diffyg cynnydd addysgol y plentyn, adroddiadau gan y rhai hynny sy'n gysylltiedig â diwallu anghenion addysgol y plentyn gan gynnwys gwybodaeth broffesiynol ac arbenigedd y tu allan i'r ysgol. Os yw'r dystiolaeth a gyflwynir yn dangos bod gan y plentyn "anawsterau sylweddol" er gwaethaf yr help a'r gefnogaeth briodol a ddarperir, yna bydd asesiad statudol yn cael ei gynnal a dylai hwnnw gael ei gwblhau o fewn 26 wythnos ar ôl gwneud y cais.

Mae **Meini Prawf Adran Cynhwysiant Addysg y Cyngor ar gyfer Aseidiadau Statudol** yn cyflwyno'r dystiolaeth sydd ei hangen ar AALI i ategu cais am asesiad statudol. Mae hefyd yn disgrifio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer asesiad statudol ar gyfer plentyn ag AAA. Mae'r meini prawf cyffredinol yn berthnasol yn achos pob cais am asesiad statudol, ac mae'r meini prawf ychwanegol yn amlinellu amodau penodol ar gyfer plant ag anawsterau penodol fel nam ar eu golwg.

Public Services Ombudsman for Wales
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Tel: 01656 641150
Fax: 01656 641199
E-mail: ask@ombudsman-wales.org.uk
Follow us on Twitter: [@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)